**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Eithriadol y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 6 Medi 2022, 10:00 Lleoliad: Trwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| **Yn bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes, Pobl/Gweithlu/AD |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd Undebau Llafur Ochr y Staff |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd Ochr y Staff |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:00*

| **PODC 1/2022.09.06** | **Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau** |
|---|---|

Agorodd y Cadeirydd Gyfarfod Eithriadol y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Hydref 2022.

| **PODC 2/2022.09.06** | **Datganiadau o Fuddiannau** |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau’n ychwanegol i’r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

| **PODC 3/2022.09.06** | **Eitemau i’w Cymeradwyo** |
|---|---|

Dywedodd MM wrth y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod Pwyllgor ychwanegol hwn yn ystyried a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer nifer o Bolisïau Corfforaethol.

Cyflwynodd NL y polisïau a nododd y prosesau cymeradwyo ac adolygu mewnol a oedd wedi digwydd, gan gynnwys adolygiad gan y Fforwm Partneriaeth Lleol, ymgynghoriad mewnol ac adolygiad a chymeradwyaeth gan y Tîm Gweithredol Busnes (BET). Ar gyfer pob un o’r polisïau, nododd NL fod newidiadau wedi’u gwneud i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn gyson â diwylliant a naws y sefydliad a bod asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi’i gwblhau ar gyfer pob un o’r polisïau, ac wedi’u cynnwys yn yr agenda i’w hystyried.

Nododd y Pwyllgor fod yr ymgynghoriad staff wedi'i gwblhau cyn y pandemig. Eglurodd LD mai hwn oedd yr ymgynghoriad staff llawn 28 diwrnod gorfodol, a bod ymgynghoriad arall, gan gynnwys adolygiad gan gydweithwyr y Fforwm Partneriaeth Lleol a'r Undeb Llafur, wedi'i gynnal ers hynny.

Awgrymwyd y gallai'r papur eglurhaol gynnwys cyfeiriad at ba bryd y gofynnwyd am gyngor ar bolisïau penodol, er enghraifft gan arweinwyr clinigol, neu arbenigwyr pwnc, i roi cyd-destun o ran pwy oedd wedi cyfrannu at y polisïau. Cytunodd LB i adolygu'r blaen adroddiad i sicrhau bod hwn yn cael sylw priodol.

Yn dilyn trafodaeth ar y dyddiadau pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad yn BET a LPF, cytunwyd i gynnwys tabl yn amlinellu’r dyddiad yng nghofnod y cyfarfod er eglurder:

| **Polisi** | **BET** | **LPF** |
|---|---|---|
| Polisi Tywydd Garw/ Amhariad ar Drafnidiaeth | 2 Awst 2022 | 26 Hydref 2021 |
| Polisi Lles Meddyliol | 2 Awst 2022 | 26 Hydref 2021 |

| | | |
|---|---|---|
| Polisi Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau ac Alcohol) | 2 Awst 2022 | 26 Hydref 2021 |
| Gweithdrefn Ymddeol | 18 Gorffennaf 2022 | 26 Hydref 2021 |
| Polisi Perthnasoedd Personol yn y Gwaith | 5 Gorffennaf 2022 | 26 Hydref 2021 |

Roedd yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhob un o'r adroddiadau eglurhaol.

| PODC 3.1/2022.09.06 | Polisi Tywydd Garw / Amhariad ar Drafnidiaeth |
|---|---|

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Polisi Tywydd Garw/
Amhariad ar Drafnidiaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Nodi naws y polisi, gan ganolbwyntio ar gefnogi a bod yn hyblyg fel sefydliad lle bo modd.
- Trafod yr angen i sicrhau bod y ffurflenni a gynhwysir fel dolenni o fewn y weithdrefn ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn, yn hytrach na thrwy gais. Cytunodd NL i adolygu hyn.
- Holi sut y byddai'r polisi hwn yn berthnasol i Ofalwyr, yn enwedig o ran defnyddio gwyliau blynyddol i gefnogi cyfrifoldebau gofalu. Cadarnhaodd LD fod hyn wedi'i gynnwys yn rhan o'r Polisi Absenoldeb Arbennig, a chytunodd i gyfeirio'r ymholiad hwn i'w ystyried yn rhan o'r adolygiad mewnol presennol o'r polisi Gwyliau Blynyddol.
- Holi sut y byddai hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio gartref, lle'r oedd cyflwr anffafriol yn effeithio ar eu gallu i weithio gartref, megis toriad pŵer. Dywedodd NL y byddai hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n gweithio gartref, ond bod y rheolwr yn cael ei annog i ddefnyddio synnwyr cyffredin mewn achosion o'r fath a gweithio gyda thimau i'w datrys.
- Pwysigrwydd cynnwys y rhwydweithiau staff mewn adolygiadau polisi priodol i geisio mewnbwn ac adborth.
- Awgrym i gynnwys y dolenni i bolisïau eraill ac i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar Iechyd. Cadarnhaodd LB fod hwn wedi'i gwblhau yn dilyn cymeradwyo.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi Tywydd Garw / Amhariad ar Drafnidiaeth.

| PODC 3.2/2022.09.06 | Polisi Lles Meddyliol |
|---|---|

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Polisi Lles Meddyliol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi Lles Meddyliol.

| **PODC 3.3/2022.09.06** | **Polisi Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau ac Alcohol).** |
|---|---|

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau ac Alcohol), a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo

Nododd NL fod polisi yn darparu'r sefyllfa gyfreithiol o ran Camddefnyddio Sylweddau, gyda ffocws ar sut y gellid cynnig cymorth lle bo angen.

Trafododd y Pwyllgor:

Sut y byddai'r polisi'n cael ei hyrwyddo a'i ledaenu o fewn y sefydliad i sicrhau ymwybyddiaeth.

Y mewnbwn i'r polisi gan gydweithwyr iechyd a llesiant.

Y gefnogaeth bosibl o gyfraniad y trydydd sector y gellid ei gynnwys fel arwyddbost ochr yn ochr â'r polisi.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau ac Alcohol).

| **PODC 3.4/2022.09.06** | **Gweithdrefn Ymddeol** |
|---|---|

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Weithdrefn Ymddeol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w chymeradwyo.

Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod hon yn Weithdrefn bresennol a oedd wedi'i diweddaru, a oedd yn ymdrin â'r broses ymddeol. Yn dilyn cwestiynau gan y Pwyllgor, cadarnhaodd fod y 'Polisi Ymddeol a Dychwelyd' yn ymdrin â materion a godwyd ynghylch y broses ar gyfer dychwelyd i'r gwaith ar ôl ymddeol.

Trafododd y Pwyllgor yr angen i sicrhau bod y ffurflenni a oedd wedi'u cynnwys fel dolenni o fewn y weithdrefn ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn, yn hytrach na thrwy gais. Cytunodd NL i adolygu hyn.

Nododd LB ei bod yn bolisi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfieithu'r holl Bolisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol i'r Gymraeg. Roedd hyn yn cael ei gwblhau pan oedd polisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddaru / adolygu, ac yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Weithdrefn Ymddeol.

| **PODC 3.5/2022.09.06** | **Polisi Perthnasoedd Personol yn y Gwaith** |
|---|---|

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Polisi Perthnasoedd Personol yn y Gweithle. Atgoffodd MM y Pwyllgor fod y polisi hwn yn cael ei gyflwyno i ddisodli protocol presennol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymeradwyo'r** Polisi Perthnasoedd Personol yn y Gwaith.

- **Nodi** bod y Polisi Perthnasoedd Personol yn y Gwaith yn disodli'r Protocol ar gyfer Rheoli Perthnasoedd Personol yn y Gweithle (PHW/SCD05), a fyddai'n cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Polisïau Corfforaethol.

Diolchodd MM i'r Pwyllgor am yr adolygiad manwl a'r ystyriaeth o'r holl bolisïau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo. Nododd y sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor ac a dderbyniwyd ganddo ynghylch y broses ymgynghori ac adolygu a ddilynwyd, ac atgyfnerthodd MM y gellid codi unrhyw ymholiadau am y broses gyda NL cyn y cyfarfod.

| **PODC 4/2022.09.06** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
| --- | --- |

**Unrhyw Fater Arall:**
Nododd DE ei ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Adborth y Pwyllgor**
Nododd y Pwyllgor y bu'n ddefnyddiol ystyried y polisïau hyn y tu allan i'r cyfarfodydd a drefnwyd, a bod hyn wedi cefnogi craffu priodol ac amserol ar y polisïau cyn eu cymeradwyo.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 6 Hydref 2022.

*Daeth y cyfarfod i ben am 10:50*